awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

www.awen-wales.com

GWIRFODDOLI

gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

VOLUNTEERING

with Awen Cultural Trust

CROESO I YMDDIRIEDOLAETH DDIWYLLIANNOL AWEN!

'Gwneud bywydau pobl yn well' yw ein diben, a byddem wrth ein boddau'n cael eich cymorth gyda hynny!

Fel ymddiriedolaeth ddiwylliannol, rydym yn canolbwyntio ar y bobl. A dweud y gwir, ein huchelgais yw 'gwella llesiant trwy ddarparu lle a chyfle i bobl fwynhau a chael eu hysbrydoli gyda'i gilydd gan ddiwylliant'.

Rydym yn gweithio tuag at y diben hwn gyda thîm anhygoel o staff, ac amrywiaeth eang o bartneriaid. Ond rydym hefyd yn dibynnu ar ein gwirfoddolwyr ymroddedig i'n helpu gyda'r holl waith yr ydym yn ei wneud.

Diolch am eich diddordeb mewn gwirfoddoli gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Yn y llyfryn hwn, byddwn yn dweud popeth wrthych am Awen, am ein hamrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli a sut y gallwch ymuno â'r tîm.

WELCOME TO AWEN CULTURAL TRUST!

'Making people's lives better' is our purpose, and we would love your help with that!

As a cultural trust, we are focused on people. In fact, our ambition is 'to improve wellbeing by providing space and opportunity for people to enjoy and be inspired together by culture'.

We work towards this purpose with an amazing team of staff, and a wide variety of partners. But we also rely on our dedicated volunteers to help us with all the work we do.

Thank you for your interest in volunteering with Awen Cultural Trust. In this booklet we will tell you all about Awen, about our wide variety of volunteering opportunities and how you can join the team.

SUT Y GWNAETHOM NI GYCHWYN

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn 2015 fel sefydliad elusennol gyda'r nod o wella cyfleoedd diwylliannol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarth ehangach.

Ers hynny rydym wedi ehangu ein portffolio i bartneru â Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent ac rydym yn cyrraedd dros filiwn o bobl bob blwyddyn.

YR HYN YR YDYM NI'N EI WNEUD

Mae Awen yn rheoli sawl lleoliad diwylliannol, canolfan gymunedol, a llyfrgell gyhoeddus.

Rydym hefyd rheoli Tŷ a Pharc Gwledig Bryngarw, a dwy raglen hyfforddi i oedolion ag anableddau dysgu.

HOW WE STARTED

Awen Cultural Trust was established in 2015 as a charitable organisation with the aim to enhance cultural opportunities in Bridgend County Borough and the wider region.

Since that time we have expanded our portfolio to partner with Rhondda Cynon Taf and Blaenau Gwent and we reach over a million people every year.

WHAT WE DO

Awen manages several cultural venues and community centres, and public libraries.

We also manage Bryngarw House and Country Park, and two training programmes for adults with learning disabilities.





Lleoliadau diwylliannol

Rydym yn rheoli pum gwahanol theatr: tri lleoliad ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr, un ym Mlaenau Gwent ac un yn Rhondda Cynon Taf. Mae ein holl theatrau yn cynnal amrywiaeth eang o berfformiadau: o fandiau a ballet, i ddigrifwyr, operâu a sioeau cerdd. Ond ceir mwy i'n lleoliadau na pherfformiadau yn unig, gan gynnwys cynnal gweithgareddau cymunedol fel grwpiau crefft a dawnsiau te. Mae rhai o'n lleoliadau hefyd yn cynnal sinema, arddangosfeydd a sgyrsiau.

Mae llawer yn digwydd bob amser mewn adeiladau hanesyddol yng nghalon ein cymunedau:

- Neuadd y Gweithwyr Blaengarw, Blaengarw
- Pafiliwn y Grand, Porthcawl
- Neuadd y Dref Maesteg, Maesteg
- Y Metropole, Abertyleri
- Y Muni, Pontypridd

Cultural venues

We manage five different theatres: three venues in Bridgend County Borough, one in Blaenau Gwent and one in Rhondda Cynon Taf. All our theatres host a wide range of performances: from bands and ballets, to comedians, operas and musicals. But our venues are about more than just performances, hosting community activities such as craft groups and tea dances. Some of our venues also host cinema, exhibitions and talks.

There is also a lot going on in historic buildings at the heart of our communities:

- Blaengarw Workmen's Hall, Blaengarw
- Grand Pavilion, Porthcawl
- Maesteg Town Hall, Maesteg
- The Metropole, Abertillery
- Y Muni, Pontypridd



Canolfannau Cymunedol

Mae ein dwy ganolfan gymunedol yn lleoliadau hurio preifat sy'n cael defnydd da, gan gynnig mannau hanfodol i gymunedau yng nghyffiniau Betws a Phorthcawl. Mae'r ddwy ganolfan yn cynnig lleoliadau fforddiadwy ar gyfer amrywiaeth o grwpiau cymdeithasol a ffitrwydd, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dosbarthiadau dawns, cyfarfodydd grwpiau cymunedol, clybiau crefft a grwpiau plant bach.

- Awel y Môr, Porthcawl
- Canolfan Fywyd Betws, Betws

Community Centres

Our two community centres are well used private hire venues, providing vital spaces for communities around Betws and Porthcawl. Both centres offer affordable spaces for a range of social and fitness groups, events and activities. Examples of these activities include dance classes, community group meetings, craft clubs and toddler groups.

- Awel y Môr, Porthcawl
- Betws Life Centre, Betws

Llyfrgelloedd

Mae Awen yn rheoli wyth llyfrgell gyhoeddus yn Abercynffig, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Pencoed, Porthcawl, y Pîl a Sarn. Mae ein llyfrgelloedd yn llawn llyfrau, wrth gwrs, ond maent yn cynnig llawer mwy na chyfleoedd darllen. Yn ogystal â mynediad at gyfrifiaduron a chyfleusterau argraffu, maent hefyd yn cynnal llawer o weithgareddau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd Cymraeg, sesiynau Bownsio a Rhigwm i blant bach, grwpiau darllen a sgyrsiau treftadaeth.

Ceir Llyfrgell Dreftadaeth hefyd, y llyfrgell hanes lleol ar gyfer bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r llyfrgell hon yn cefnogi ymchwil hanes lleol, ac yn gartref i fapiau, lluniau ac adnoddau hanesyddol. Mae gwasanaeth Llyfrau ar Olwynion y llyfrgelloedd yn danfon llyfrau i'r bobl hynny yn ein cymunedau nad ydynt yn gallu ymweld â'r llyfrgelloedd.

Libraries

Awen manages eight public libraries in Aberkenfig, Betws, Bridgend, Maesteg, Pencoed, Porthcawl, Pyle and Sarn. Of course our libraries are full of books, but they offer far more than reading opportunities. As well as computer access and printing facilities, they also host lots of community activities. These include Welsh language meetings, Bounce and Rhyme sessions for toddlers, reading groups and heritage talks.

There is also a Local History Library for Bridgend County Borough. This library supports local history research, and is home to historic maps, images and resources. The libraries' Books on Wheels service delivers books to those people in our communities unable to visit the libraries.

Parc Gwledig Bryngarw

Mae Parc Gwledig hanesyddol Bryngarw yn cynnig dros 100 erw o ddolydd, gerddi a choetiroedd aeddfed i bobl eu harchwilio a'u mwynhau. Mae Tŷ Bryngarw yng nghanol y Parc, lle'r ydym yn cynnal priodasau ac amrywiaeth o ddigwyddiadau. Mae'r ganolfan arddio ym Mharc Gwledig Bryngarw hefyd yn gartref i B-Leaf, menter seiliedig ar waith i oedolion ag anableddau dysgu. Yn Nhon-du, dim ond ychydig filltiroedd o'r Parc, mae'r gweithdy gwaith coed ar gyfer Wood-B, ein menter seiliedig ar waith arall i oedolion ag anableddau dysgu.

Bryngarw Country Park

The historic Bryngarw Country Park offers over 100 acres of meadows, gardens and mature woodlands for people to explore and enjoy. Bryngarw House sits at the centre of the Park, where we host weddings and a variety of events. The garden centre in Bryngarw Country Park is also home to B-Leaf, a work-based initiative for adults with learning disabilities. In Tondu, just a few miles from the Park, is the carpentry workshop for Wood-B, our other work-based initiative for adults with learning disabilities.

POBL YW POPETH

Fel elusen, pobl yw popeth i ni. Rydym yn cyflawni ein diben o 'wneud bywydau pobl yn well' trwy ddarparu lle a chyfle i bobl fwynhau profiadau diwylliannol bywiog sy'n ysbrydoli ac yn gwella eu hymdeimlad o lesiant.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid, o artistiaid i grwpiau cymunedol lleol. Ac mae'r holl waith yr ydym yn ei wneud fel Awen yn cael ei wneud gan ein staff a'n gwirfoddolwyr ymroddedig.

Ein diwylliant yw creu lle gyda thegwch a chynhwysiad yn greiddiol iddo, ac ymgylchedd hwyliog sydd yn caniatau i bobl fod pwy ydyn nhw. Creadigol, cydweithredol, grymuso a theg, mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnanwn.

ALL ABOUT PEOPLE

As a charity, we are all about people. We deliver our purpose of 'making people's lives better' by providing space and opportunity for people to enjoy vibrant cultural experiences that inspire and enhance their sense of wellbeing.

We work with a wide variety of partners, from artists to local community groups. And all the work we deliver as Awen is delivered by our dedicated staff and volunteers.

Our culture is about creating a space where equity, inclusion and fairness are at its heart and an environment which is fun and allows people to be their true selves. Everything we do is underpinned by our values of creative, collaborative, empowering and fair.



YR HYN Y MAE EIN GWIRFODDOLWYR YN EI DDWEUD...

"Fel cyn-weithiwr llyfrgell, mae wedi golygu fy mod i wedi cadw mewn cysylltiad â phobl sy'n gweithio yn y llyfrgell ac y gallaf barhau i ddefnyddio'r sgiliau i mi eu hennill pan roeddwn i'n gweithio. Rwyf i hefyd yn dod i adnabod mwy o bobl a gwneud yr hyn yr wyf i'n ei fwynhau, sef siarad am lyfrau."

"Dysgu mwy am natur, dod i adnabod pobl y tu allan i'm grŵp ffrindiau."

"Gwnaeth i mi wenu eto a bod ag agwedd gadarnhaol at fywyd."

"Mae wedi bod yn anhygoel, rwyf i wedi sicrhau gwaith o'r sgiliau a'r profiad i mi eu hennill fel gwirfoddolwr ac wedi gwneud sawl cyfeillgarwch newydd ar hyd y ffordd."

"Mae wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o'r heriau a wynebir gan oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy 'roi yn ôl' a chyfrannu at ddiben Awen."

WHAT OUR VOLUNTEERS SAY...

"As an ex-library employee it has meant that I've kept in touch with people who work in the library and I carry on using the skills I acquired when I was working. I also get to know more people and do what I enjoy which is talking about books."

"Learning more about nature, getting to know people away from my friendship group."

"Made me smile again and have a positive attitude on life."

"It has been amazing, I've gained employment from the skills and experience I gathered as a volunteer and I've made lots of new friendships along the way."

"It's made me more aware of the challenges faced by adults with additional learning needs. I feel like I make a difference, by 'giving back' and contributing to Awen's purpose."

CYFLEOEDD GWIRFODDOLI

Ceir amrywiaeth o ffyrdd i gymryd rhan yng ngwaith Awen. Efallai yr hoffech fod yn Gwirfoddolwr Theatr a Digwyddiadau yn un o'n lleoliadau; efallai bod gennych flys mynd allan i'r awyr agored a chefnogi'r parcmyn ym Mharc Gwledig Bryngarw, neu gallech fod yn cefnogi'r gweithgareddau yn un o'n llyfrgelloedd.

Ceir llawer o fanteision o wirfoddoli yn Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu, gan roi cyfleoedd i chi ddysgu sgiliau newydd. Gallwch hefyd ennill profiad a allai fod o fantais i chi wrth ymgeisio am swyddi, i greu cyfleoedd gyrfaol newydd, neu i gefnogi eich datblygiad personol.

Mae llawer o'n gwirfoddolwyr yn ymuno â ni i chwarae rhan yn y gymuned leol. Mae cefnogi mentrau lleol fel gwirfoddolwr hefyd yn rhoi'r boddhad o wybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned. Ac mae gwirfoddoli yn cynnig cyfleoedd gwych i gyfarfod pobl a gwneud ffrindiau!

VOLUNTEERING OPPORTUNITIES

There are a variety of ways to get involved with Awen's work. Perhaps you'd like to become a Theatre & Events Volunteer at one of our venues; maybe you fancy going outdoors and supporting the rangers at Bryngarw Country Park, or you could be supporting the activities in one of our libraries.

There are many benefits to volunteering at Awen Cultural Trust. Training and support will be provided, giving you opportunities to learn new skills. You can also gain experience which may benefit you in applying for jobs, opening new career opportunities, or to support your personal development.

Many of our volunteers join us to get involved in the local community. Supporting local initiatives as a volunteer also gives the satisfaction of knowing you are making a difference in your community. And volunteering provides great opportunities to meet people and make friends!



BUDDION GWIRFODDOLWYR

Mae ein gwirfoddolwyr yn chwarae rhan annatod yn ein nod o wireddu ein pwrpas o 'wneud bywydau pobl yn well' ac mae pob awr a roddir yn cael ei gwerthfawrogi.

Rydyn ni'n gwybod bod ein gwirfoddolwyr yn elwa mewn sawl ffordd trwy wirfoddoli gyda ni, gan gynnwys, gwell iechyd a lles, ehangu rhwydweithiau cymdeithasol, gwella hyder a boddhad wrth roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

Rydym am gydnabod eich ymrwymiad a'ch amser drwy roi rhywbeth bach yn ôl fel diolch.

Dyma beth allwch chi ei gael am wirfoddoli gyda ni::

Ar ôl i chi gwblhau eich shifft dreial a'ch hyfforddiant gorfodol

- Gostyngiad o 20% yn ein caffis (heb gynnwys diodydd alcoholaidd a dialcohol)
- Gostyngiad o 10% ar bryniannau yn B-Leaf
- Potel ddŵr
- Ysgrifbin
- Gwisg (os yn berthnasol)
- Cerdyn disgownt/laniard

Ar ôl 3 mis

- Mynediad at blatfform dysgu digidol llawn Awen Learn ar gyfer datblygiad personol
- Mynediad i'r Rhwydwaith Mentora Elusennau
- Tocyn Parcio Ceir Am Ddim ym Mharc Gwledig Bryngarw
- Gostyngiadau ad hoc
- Credydau Tempo Time
- Y cyfle i ymgeisio am swyddi mewnol

VOLUNTEER BENEFITS

Our volunteers play an integral part in us meeting our purpose of 'making people's lives better' and every hour that is given is valued and appreciated.

We know that our volunteers benefit in many ways from volunteering with us, including, improved health and wellbeing, expanding social networks, improving confidence and satisfaction in giving something back to the community.

We want to recognise your commitment and time by giving a little something back as a thank you.

Here is what you can get for volunteering with us:

Once you have completed your trial shift and mandatory training

- 20% discount at our cafés (alcoholic and non-alcoholic drinks are excluded)
- 10% discount on purchases at B-Leaf
- Water bottle
- Pen
- Uniform (if applicable)
- Lanyard/Discount card

After 3 months

- Access to Awen Learn full digital learning platform for personal development
- Access to the Charity Mentoring Network
- Free Car Parking Pass at Bryngarw Country Park
- Ad-hoc discounts
- Tempo Time Credits
- The opportunity to apply for internal roles

Ar ôl 6 mis

- Aelodaeth am ddim o'n Cynllun Ffrindiau a Buddion sy'n rhoi'r hawl i chi gael y canlynol:
  - Archebu â blaenoriaeth ar gyfer digwyddiadau dethol
  - Cynigion tocynnau munud olaf
  - Digwyddiadau unigryw i aelodau yn unig
  - Cylchlythyr chwarterol
  - Dim ffioedd cyfnewid ar docynnau

Mae gennym ni hefyd Wobrau Ysbrydoli chwarterol lle mae gwirfoddolwr o bob ardal busnes (Llyfrgelloedd, Theatrau, Parc Gwledig Bryngarw/B-Leaf/Wood-B) yn cael ei wobrwyo ac yn mynd ymlaen i wobr Gwirfoddolwr Ysbrydoli'r Flwyddyn.

Noder y gall buddion newid a bydd gwirfoddolwyr yn cael gwybod am hyn yn ôl yr angen.

Os ydych chi'n wirfoddolwr ar ein Panel Llais y Gymuned, byddwch chi'n derbyn y canlynol am gyfnod blwyddyn y panel.

- Gostyngiad o 20% yn ein caffis (heb gynnwys diodydd alcoholaidd a dialcohol)
- Gostyngiad o 10% ar bryniannau yn B-Leaf
- Mynediad at blatfform dysgu digidol llawn Awen Learn ar gyfer datblygiad personol
- Mynediad i'r Rhwydwaith Mentora Elusennau
- Tocyn Parcio Ceir Am Ddim ym Mharc Gwledig Bryngarw

After 6 months

- Free membership of our Friends and Benefits Scheme which entitles you to the following:
  - Priority booking for selected events
  - Last minute ticket offers
  - Exclusive member-only events
  - Quarterly newsletter
  - No exchange fees on tickets

We also have quarterly Inspire Awards where a volunteer from each business area (Libraries, Theatres, Bryngarw Country Park/B-Leaf/Wood-B) is awarded and goes forward to the Inspire Volunteer of Year award.

Please note benefits are subject to change and volunteers will be advised as appropriate.

If you are a volunteer on our Community Voice Panel you will receive the following for the one year period of the panel.

- 20% discount at our cafés (alcoholic and non-alcoholic drinks are excluded)
- 10% discount on purchases at B-Leaf
- Access to Awen Learn full digital learning platform for personal development
- Access to the Charity Mentoring Network
- Free Car Parking Pass at Bryngarw Country Park

SUT I GAEL EICH BUDDION

- **Bydd poteli dŵr, ysgrifbin, gwisg (os yn berthnasol), laniard a bathodyn enw / cerdyn disgownt** yn cael eu rhoi gan eich Arweinydd Gwirfoddolwyr
- **Gostyngiadau** – dangoswch eich laniard a'ch bathodyn enw neu gerdyn disgownt.

Am bob budd arall - e-bostiwch volunteering@awen-wales.com a bydd aelod o'r tîm pobl yn cysylltu â chi i wneud y trefniadau angenrheidiol.

HOW TO GET YOUR BENEFITS

- **Water bottles, pen, uniform (if applicable), lanyard & name badge/discount card** will be issued by your Volunteer Lead
- **Discounts** – show your lanyard and name badge or discount card.

For all other benefits - please email **volunteering@awen-wales.com** and a member of the people team will be in touch to make the necessary arrangements.

Y BROSES RECRIWTIO GWIRFODDOLWYR

I gychwyn ein partneriaeth wirfoddoli gydfuddiannol, hoffem wneud yn siŵr bod gan y ddwy ochr yr un ddealltwriaeth a disgwyliad o'r swydd wirfoddoli. Mae pob rôl wirfoddol yn dechrau gyda sgwrsio, felly unwaith y byddwn wedi derbyn eich mynegiad o ddiddordeb trwy'r ffurflen we, yn y cnawd neu drwy e-bost, byddwn yn cysylltu â chi!

Ar ôl i ni gael sgwrs, mae'n amser am shifft dreial, ac yna sgwrs i wirio sut aeth y shifft dreial. Os ydym ni i gyd yn hapus, yna mae'n amser llofnodi eich Cytundeb Gwirfoddolwr a chynllunio eich hyfforddiant cynefino i wirfoddolwyr.

Yn dibynnu ar y swydd wirfoddoli, y gweithle a'ch profiad, gallem drefnu i chi wirfoddoli ochr yn ochr â chyfaill i sicrhau cefnogaeth ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y sgyrsiau gwirfoddoli.

THE VOLUNTEER RECRUITMENT PROCESS

To start our mutually-beneficial volunteering partnership, we want to make sure that we both have the same understanding and expectation of the volunteering role. Every volunteer role starts with a chat, so once we've received your expression of interest via the web form, in person or via email we will get in touch!

Once we have had a chat it's time for a trial shift, followed by a catch up to check how the trial shift went. If we're all happy, then it's time to sign your Volunteer Agreement and plan your volunteer induction training.

Depending on the volunteer role, the workplace and your experience, we might set you up to volunteer alongside a buddy for additional support. This will be discussed in the volunteer chats.

1

Cyswllt cychwynnol wedi'i dderbyn drwy ffurflen we, yn y cnawd neu drwy e-bost

Initial contact received via web form, in person or by email

2

Sgwrs anffurfiol gyda'r arweinydd gwirfoddolwyr

Informal conversation with volunteer lead

3

Os yn llwyddiannus, ymuno â'r tîm ar gyfer shifft dreial gyda'ch cyfaill gwirfoddoli os oes angen!

If successful, join the team for a trial shift with your volunteer buddy if required!

4

Os yw gwirfoddoli i chi, dylech gytuno ar yr oriau a deall yr ymrwymiad trwy sgwrsio â'ch Arweinydd Gwirfoddolwyr

If volunteering is for you,agree the hours and understand the commitment by chatting to your volunteer lead

5

Sefydlu ar *Volunteero*, ein system rheoli gwirfoddolwyr, a llofnodi eich cytundeb gwirfoddoli

Set up on *Volunteero*, our volunteer management system, and sign your volunteer agreement

6

Cytunwch ar ddyddiad cyfleus ar gyfer eich cyfnod cynefino a'ch hyfforddiant i'ch croesawu i Awen

Agree a convenient date for your induction and training to welcome you to Awen

7

Gweithiwch ochr yn ochr â'ch cyfaill yn ôl y gofyn am hyd at 3 shifft i'ch helpu i ddysgu'r swydd a chynefino â'r tîm

Work alongside your buddy where required for up to 3 shifts to help you learn the role and settle in to the team

Mae Awen wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac wedi ymrwymo i degwch a chynwysoldeb ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Mae hyn yn cynnwys ein cyfleoedd gwirfoddoli. Fel rheol, bydd angen i chi fod yn 16 mlwydd oed a hŷn i wirfoddoli. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau efallai y bydd pobl iau yn gallu gwirfoddoli. Cysylltwch â ni i drafod opsiynau ar gyfer hyn.

Awen is committed to equal opportunities and are committed to fairness, inclusivity, and equity in all that we do. This includes our volunteering opportunities. Typically, you will need to be 16 years old and over to volunteer. However, in some circumstances younger people may be able to volunteer. Please contact us to discuss options for this.

CYSYLLTWCH Â NI I GYCHWYN EICH TAITH WIRFODDOLI

Ceir amrywiaeth eang o swyddi gwirfoddoli ar draws Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Gallwch ddod o hyd i wahanol ddisgrifiadau swydd ar ein gwefan, neu gallwch gael sgwrs ag un o'n staff i drafod cyfleoedd gwirfoddoli.

I wneud cais am swydd wirfoddoli, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am wirfoddoli gydag Awen, anfonwch e-bost atom yn volunteering@awen-wales.com

Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn ar 01656 754825. Dyma'r rhif ffôn ar gyfer ein tîm Pobl; byddant yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau a gallant gymryd eich manylion fel y gall arweinydd gwirfoddolwyr gysylltu â chi i drafod cyfleoedd gwirfoddoli.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych a'ch croesawu i dîm Awen!

GET IN TOUCH TO START YOUR VOLUNTEERING JOURNEY

There are a wide variety of volunteering roles across Awen Cultural Trust. You can find different role descriptions on our website, or you can talk to one of our staff for a chat to talk through volunteering opportunities.

To apply for a volunteering role, or for any further questions about volunteering with Awen, email us at volunteering@awen-wales.com

You can also contact us by phone on 01656 754825. This is the phone number for our People team; they will try to answer any questions and can take your details so a volunteer lead can get in touch with you to discuss volunteering opportunities.

We look forward to hearing from you and welcoming you to the Awen team!

awen

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 8UU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 8UU

+44 (0) 1656 754825
enquiries@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: 1166908
Rhif cofrestru TAW / VAT registration number: 224 3341 44
Rhif gofrestredig / Company number: 09610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwy warant.
Awen Cultural Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.